**Bwrdd Pensiwn RhCT CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
Cofnodion cyfarfod rhithwir Bwrdd Pensiwn RhCT a gynhaliwyd ddydd Iau, 16 Hydref 2025 am 10.00am.

**Bwrdd Pensiwn RhCT - Aelodau yn bresennol: -**

Yr Athro Hugh Coombs, Cynrychiolydd y Cyflogwyr (Prifysgol De Cymru) a Chadeirydd Bwrdd Pensiwn Rhondda Cynon Taf
Rob Whiles – Cynrychiolydd yr Aelodau (Pensiynwyr)
Darren Griffiths - Cynrychiolydd yr Undebau Llafur (CBS Merthyr Tudful)

**Swyddogion yn bresennol**

Mr I Traylor – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiwn, Caffael a Thrafodion
Y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Adnoddau Corfforaethol (Swyddog Adran 151)
Mrs C Black, Rheolwr y Gwasanaethau Pensiwn

**Ymddiheuriad**

David Francis, Cynrychiolydd Cyflogwyr y Bwrdd Pensiwn (Coleg y Cymoedd)

**21 Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau o Fwrdd Pensiwn RhCT a'r Swyddogion i'r cyfarfod.

**22 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda. Nodwyd cyfrinachedd y trafodaethau.

**23 COFNODION CYFARFOD Y BWRDD PENSIWN A CHOFNODION CYFARFOD PWYLLGOR Y GRONFA BENSIWN**

Cafodd cofnodion cyfarfod Bwrdd Pensiwn RhCT ar 7 Awst 2025 eu **CYMERADWYO** yn rhai cywir.

**Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod ar 5 Mehefin 2025**

O ran Baillie Gifford yn tangyflawni eto yn y chwarter diwethaf, cynghorwyd Aelodau'r Bwrdd y byddai ei gyflawniad yn parhau i gael ei fonitro.

O ran y pwyntiau gweithredu a'r prosiectau allweddol, cynghorwyd Aelodau'r Bwrdd y byddant yn cael gwybod am y datblygiadau diweddaraf.

O ran y pwyntiau gweithredu, cynghorwyd Aelodau'r Bwrdd nad oedd yr hyfforddiant wedi'i gynnal ym mis Hydref, ond ei fod mewn gwirionedd wedi'i gynnal ym mis Medi.

**24 PANEL YMGYNGHORI - BUDDSODDI A GWEINYDDU**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth- Gwasanaethau Caffael, Pensiynau a Thrafodion yr wybodaeth ddiweddaraf am y Panel Ymgynghori - Buddsoddi a Gweinyddu a gynhaliwyd ar 22 Medi 2025.

Nododd Aelodau'r Bwrdd fod cyfanswm enillion y Gronfa Bensiwn ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 30 Mehefin 2025 yn 5.9%, yn erbyn meincnod o 6.4%, a nodwyd ffigurau cyflawniad 3 blynedd rheolwyr gweithredol a gedwir y tu allan i Bartneriaeth Pensiynau Cymru.

Cynghorwyd y Bwrdd fod cynnydd yn parhau i weithredu Strategaeth Dyrannu Asedau'r Gronfa, gydag 89% o'r asedau a fuddsoddwyd trwy gronni ymhellach i ddaliadau CBRE yn cael eu trosglwyddo i Bartneriaeth Pensiynau Cymru (Schroders Capital) o fis Gorffennaf 2025. Nodwyd bod y cronfeydd sy'n weddill a gedwid y tu allan i'r pwll yn ymwneud â Baillie Gifford. Mae'r rhain at ddibenion hylifedd a buddsoddiad pellach yn y dosbarth asedau seilwaith yn unol â'r Strategaeth Dyrannu Asedau.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at bwynt 5.3 yn yr adroddiad a nodwyd bod gwahaniaethau o fewn arddulliau'r rheolwyr sy'n eistedd o fewn y gronfa.

Adroddwyd ar Gofrestr Risg ddiweddaraf y Gronfa Bensiwn (gweler hefyd gofnod 25) i'r Bwrdd, a nodwyd y diweddariadau a gafwyd yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod diweddaraf Grŵp Gwaith Cronfa Bensiwn RhCT a'r adborth a ddaeth i law drwy'r Bwrdd Pensiwn. Gwnaed yr awgrymiadau hyn i adlewyrchu'r trefniadau sydd ar waith i reoli 'Prosiect yr Wyddfa' yn effeithiol a'r trefniadau cronni diwygiedig parhaus fel sy'n ofynnol gan y llywodraeth ganolog.
Roedd hyn yn cynnwys diweddariadau i Fesurau Rheoli, fel yr argymhellwyd gan y Bwrdd Pensiwn, i adlewyrchu'r trefniadau sydd ar waith i reoli 'Prosiect yr Wyddfa' yn effeithiol, a hynny'n rhan o'r Categori risg Llywodraethu (a disgrifiad o'r risg: Trefniadau cronni parhaus fel sy'n ofynnol gan y llywodraeth ganolog).

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion y wybodaeth ddiweddaraf am y pedwar taliad hwyr a nodwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Atgoffodd y Bwrdd fod pob taliad hwyr yn cael ei gofnodi a'i adrodd i'r Bwrdd a'r Panel. Cysylltir â'r Cyflogwyr i'w hatgoffa o'u cyfrifoldebau. O ystyried y cwantwm a'r rhesymeg a ddarparwyd, cytunodd y Bwrdd â'r Panel nad yw'r taliadau hwyr yn gyfystyr â thorri rheolau 'sylweddol' at ddibenion adrodd ffurfiol.

Nododd y Bwrdd gais derbyn newydd, o ganlyniad i newid i Gyflogwr presennol yn y gronfa. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn amsugno'r LGDU (Cyflogwr Cronfa presennol) o 1 Rhagfyr 2025, gyda disgwyl i aelodaeth barhau o 1 Ebrill 2026.

O ran McCloud, cynghorwyd Aelodau'r Bwrdd ei fod bellach wedi dod yn rhan o waith dyddiol y garfan a neilltuwyd iddo. Cafodd y Bwrdd yr adroddiad effaith diweddaraf ac mae mewn trafodaethau pellach gyda'r gronfa.

Cyfeiriwyd Aelodau'r Bwrdd at adran 8.9 o'r adroddiad a'r wybodaeth sicrhau ansawdd data. Hysbyswyd Aelodau'r Bwrdd am y niferoedd cadarnhaol o ran porth Hunanwasanaeth yr Aelodau. O ran I Connect, cynghorwyd y Bwrdd bod I Connect yn parhau i gael ei gyflwyno fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Pensiynau. Mae'r Cyflogwr olaf sydd ddim wedi ymuno eto wedi cael ei atgoffa o'i rwymedigaeth ac mae mewn trafodaethau pellach gyda'r Gronfa.

Cynhaliwyd trafodaeth gyda'r Bwrdd ynghylch dileu cyflogwr o'r Gronfa. Y gwerthusiad ymadael dilynol a gyfrifwyd gan yr Actwari a'r cais a'r penderfyniad dilynol a osodwyd yn unol â Gweithdrefn Credyd Ymadael ysgrifenedig y Gronfa.

- 

Yn dilyn trafodaethau, Aelodau'r Bwrdd **PENDERFYNWYD** nodi cofnodion y Panel Ymgynghori - Buddsoddi a Gweinyddu a gynhaliwyd ar 22 Medi 2025.

**25 MONITRO RISG**

Ystyriodd y Bwrdd y risgiau cyfredol sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn RhCT a nododd y newidiadau fel y'u nodir yn y Gofrestr Risg wedi'i diweddaru.

Cyfeiriodd Aelodau'r Bwrdd at dudalen 32 a'r sylw 'Adolygiad gwerthuso ar ôl 2022', gan nodi bod adroddiad gwerthuso newydd yn ddyledus. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y bydd adolygiad ar ôl 2025 yn cael ei gwblhau yn ystod 2026. Mae hyn yn dilyn cymeradwyo'r gwerthusiad actiwaraidd, y mae disgwyl iddo ddigwydd ym mis Mawrth 2026.

**PENDERFYNWYD** nodi'r risgiau cyfredol sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn RhCT a'r mesurau rheoli sydd ar waith.

**26 CYDGYFRANNU CYMRU GYFAN**

Rhoddodd y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Adnoddau Corfforaethol (Swyddog Adran 151) yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ynghylch Partneriaeth Cydgyfrannu Cymru Gyfan.

Clywodd y Bwrdd fod cwmni newydd wedi'i greu ar y 12 Awst o'r enw Cwmni Pensiynau Partneriaeth Pensiynau Cymru. Mae'r cwmni'n cynnwys 4 Cyfarwyddwr a Phrif Weithredwr am dymor o ddwy flynedd. Mae yna hefyd 4 o secondeion o Awdurdodau Gweinyddu Cymru. Y bwriad yw lansio ymgyrch recriwtio bellach yr wythnos hon, gyda mwy o weithgarwch gweithredu camau llywodraethu yn digwydd i gyflawni amcanion y Llywodraeth o ran cydgyfrannu erbyn 31 Mawrth 2026.

Yn dilyn y trosolwg, **PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad ar Bartneriaeth Cydgyfrannu Cymru Gyfan.

**27 FFRAMWAITH GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH**

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion yr Aelodau at y cynllun hyfforddi, a nodwyd bod angen diwygio'r cyfeiriad at yr hyfforddiant ym mis Hydref gan iddo gael ei gynnal ym mis Medi.

**28 PROSIECTAU ALLWEDDOL – Y NEWYDDION DIWEDDARAF**

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaeth Pensiwn y wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Bwrdd ynghylch prosiectau allweddol.

Cadarnhawyd bod y Gronfa wedi cysylltu â'r Dangosfwrdd Cenedlaethol ar 11 Medi a bod gwaith yn parhau gyda Heywood i ddod o hyd i ateb i reoli'r gofynion.

Nododd fod adnoddau'n cael eu hadolygu er mwyn rheoli ymholiadau sy'n dod i law. Cynghorwyd Aelodau'r Bwrdd fod y garfan weinyddu yn edrych ar ddata cyfatebol ond ei bod hi'n anodd gwneud hyn nes bod yr ateb ar waith. Dywedwyd wrth y Bwrdd ei bod hi'n debygol y bydd y Dangosfwrdd yn fyw i'r cyhoedd tua diwedd 2026 i 2027.

O ran ABS, cadarnhawyd bod y rhain wedi'u cyhoeddi'n llwyddiannus cyn y dyddiad cau statudol o 31 Awst. Roedd Aelodau'r Bwrdd yn dymuno cofnodi eu bod wedi cydnabod bod nifer o derfynau amser prosiectau wedi'u bodloni a dymunent nodi bod hyn yn gyflawniad sylweddol gan y Garfan Bensiynau. Dymunai'r Cadeirydd nodi ei ganmoliaeth o bawb a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith.

Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariadau ar brosiectau allweddol.

## 29 LLYWODRAETHU AMGYLCHEDDOL, CYMDEITHASOL A CHORFFORAETHOL

Rhoddodd y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Adnoddau Corfforaethol (Swyddog Adran 151) yr wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Bwrdd am y cynnydd a wneir mewn perthynas â Chwmni Pensiwn newydd Partneriaeth Pensiynau Cymru a'i drefniadau llywodraethu.

Hysbyswyd Aelodau'r Bwrdd fod y Cyfarwyddwyr yn cyfarfod yn wythnosol a'u bod hefyd yn cyfarfod yn anffurfiol â'r Prif Weithredwr newydd. Dywedwyd wrth Aelodau'r Bwrdd fod cyfarfodydd ffurfiol hefyd yn digwydd bob mis.

O ran cynllun busnes y cwmni, hysbyswyd y Bwrdd fod Awdurdod Ymddygiad Ariannol wedi cymeradwyo'r cynllun.

O ran materion gweithredol, cadarnhawyd bod trafodaethau'n parhau ynghylch y gofod swyddfa sydd ei angen a'r gofynion yswiriant, er enghraifft.

Cynghorwyd Aelodau'r Bwrdd ynghylch y lobïo cenedlaethol parhaus mewn perthynas â'r ymgyrch undod Palesteina. Anfonodd SAB lythyr at Weinidogion Pensiynau yn gofyn am safbwynt y Llywodraeth ar y mater hwn a bydd ymateb yn dod i law. Hysbyswyd Aelodau'r Bwrdd y byddai copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon atynt ar ôl y cyfarfod.

Yn dilyn y trosolwg, cytunwyd y byddai'r Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Adnoddau Corfforaethol (Swyddog Adran 151) yn mynychu'r cyfarfod ym mis Ionawr 2026 i roi diweddariad arall i'r Bwrdd.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad.

## 30 UNRHYW FATERION ERAILL

Cyfeiriwyd aelodau'r Bwrdd at y ddolen Bwletinau'r Gymdeithas Llywodraeth Leol a oedd wedi'i chynnwys yn yr agenda i gael yr wybodaeth ddiweddaraf a'r crynodeb a baratowyd gan y Cadeirydd.

**- Eitemau diweddaraf o fwletin y Gymdeithas Llywodraeth Leol**
**- Cynulliad Blynyddol SAB**

Cynghorwyd Aelodau'r Bwrdd y bydd y cynulliad blynyddol cyntaf yr wythnos nesaf a bydd Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn yn bresennol i gynrychioli Cronfa RhCT. Yna bydd y Cadeirydd yn rhoi adborth i'r Bwrdd yn ei gyfarfod nesaf ym mis Ionawr 2026.

**- Arolwg SAB:** Adborth
Rhoddwyd adborth i'r Bwrdd yn dilyn arolwg cydraddoldeb diweddar y SAB a nodwyd bod bwriad i wneud gwaith pellach yn y maes hwn.

Cynghorwyd y Bwrdd hefyd y byddai'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn cynnal arolwg pellach yn 2026.

**Newid gweinidogion**

Nododd y Bwrdd fod newidiadau gweinidogol diweddar wedi bod a oedd yn debygol o effeithio ar gyfrifoldebau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

**Risgiau Seiberddiogelwch**

Derbyniodd y Bwrdd sicrwydd nad oedd unrhyw ddigwyddiadau seiber wedi digwydd ers y cyfarfod diwethaf ac felly nad oedd unrhyw beryglon seiber i'w hadrodd.

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 13 Tachwedd yn Llys Cadwyn yn Siambr y Cyngor. Cadarnhawyd y byddai rhagor o fanylion yn cael eu dosbarthu maes o law.

Cadarnhawyd y byddai David Francis yn camu i lawr o'r Bwrdd oherwydd ymddeoliad cynnar. Dymunodd y Cadeirydd gofnodi diolch y Bwrdd am ei ymrwymiad, ei gyfraniad a'i wasanaeth. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at Mr Francis i gyfleu ei ddymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.26pm**

**Yr Athro H. COOMBS**
**Cadeirydd.**